Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 27 Mehefin 2019 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P R Hood-Williams | S Pritchard |
| P M Black | L James | A Pugh |
| M C Child | Y V Jardine | J A Raynor |
| S E Crouch | P K Jones | C Richards |
| J P Curtice | S M Jones | B J Rowlands |
| N J Davies | L R Jones | M Sherwood |
| A M Day | E J King | P B Smith |
| P Downing | E T Kirchner | R V Smith |
| C R Doyle | M B Lewis | A H Stevens |
| M Durke | R D Lewis | D G Sullivan |
| W Evans | W G Lewis | M Sykes |
| E W Fitzgerald | A S Lewis | G J Tanner |
| R Francis-Davies | C E Lloyd | L G Thomas |
| L S Gibbard | P Lloyd | W G Thomas |
| K M Griffiths | I E Mann | M Thomas |
| J A Hale | P M Matthews | L J Tyler-Lloyd |
| D W Helliwell | P N May | G D Walker |
| T J Hennegan | D Phillips | L V Walton |
| C A Holley | C L Philpott | T M White |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeffrey Dong | Prif Swyddog y Drysorfa a Thechnegol |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Swyddog A.151 |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, V M Evans, S J Gallagher, B Hopkins, D H Hopkins, O G James, M H Jones, J W Jones, M A Langstone, H M Morris, K M Roberts a/ac R C Stewart

## 18. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y cysylltiadau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael ag eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o gysylltiadau personol a rhagfarnol" os oes gan y cynghorydd/swyddog ddiddordeb i'w ddatgan yn unig. Nid oedd angen dychwelyd ffurflenni os nad oedd unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd D W Helliwell gysylltiad personol â Chofnod 29 "Rhybudd o Gynnig - Home Farm".

2) Datganodd y Cynghorwyr A M Day, R Francis-Davies, L S Gibbard, P K Jones, E T Kirchner, A S Lewis, W G Lewis, P Lloyd, C L Philpott, C Richards, D G Sullivan, M Sykes, G J Tanner, L V Walton a T M White gysylltiad personol â Chofnod Rhif 30 "Oedran Pensiwn Statudol".

## 19. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod blynyddol y cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019;

2) Cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 17 Mai 2019;

3) Cyfarfod seremonïol y cyngor a gynhelir ar 12 Mehefin 2019 yn amodol ar ychwanegu'r Cynghorydd A M Day at y rhestr o ymddiheuriadau.

## 20. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.

Ni chafwyd ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredinol diwethaf y cyngor.

## 21. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.

### 1) Gweddarlledu'r Cyfarfod

Dywedodd yr Aelod Llywyddol, fel rhan o'r gwaith cyfredol i fynd ati i weddarlledu cyfarfodydd y cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor y Rhaglen Graffu, fod y cyfarfod yn cael ei recordio.

### 2) Y gorau yng Nghymru yng ngwobrau Prif Adeiladwr y Flwyddyn Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr

Llongyfarchodd yr Aelod Llywyddol Lynsey Davies o'r Gwasanaethau Adeiladau am ennill gwobr 'y gorau yng Nghymru' ar gyfer Gwobrau Prif Adeiladwr y Flwyddyn Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr 2019. Bydd Lynsey'n cael ei chyflwyno ar gyfer gwobrau cenedlaethol Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr ar 20 Medi 2019. Meddai Ifan Glyn, Cyfarwyddwr FMB Cymru, "mae Lynsey'n enghraifft wych o sut gall bod yn ymrwymedig, yn ymroddgar ac yn benderfynol gyflawni canlyniadau ac rydym yn dymuno'n dda iddi yn y gwobrau cenedlaethol."

Roedd Lynsey Davies yn bresennol i dderbyn ei gwobr.

**3) Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2019**

Dinasyddion Abertawe a/neu bobl â chysylltiadau ag Abertawe a dderbyniodd gwobrau yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines.

**a) Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE)**

i) Derek Vaughan, Aelod ASE Senedd Ewrop dros Gymru. Am wasanaethau gwleidyddol a chyhoeddus.

**b) Aelod Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE)**

i) Gerallt Bowen Davies, Swyddog Gweithrediadau Cenedlaethol Cymru, Ambiwlans Sant Ioan. Am wasanaethau i ddarpariaeth Cymorth Cyntaf yng Nghymru. (Abertawe, Gorllewin Morgannwg)

ii) Pamela Christine Evans, Sefydlydd a Chyfarwyddwr Peace Mala. Am wasanaethau i hyrwyddo heddwch a dealltwriaeth o ryng-grefyddau. (Treforys, Abertawe)

iii) Karen Margaret MacKinnon am ei gwasanaethau i'r celfyddydau. (Curadur Oriel Gelf Glynn Vivian Cyngor Abertawe) (Brynmill, Abertawe)

iv) **Michael Clive Norman. Gwirfoddolwr a sefydlydd Coed Cwm Penllergaer. Am wasanaethau i dreftadaeth Gymreig.**

**c) Medal yr Ymerodraeth Brydeinig (BEM)**

i) Ian Kevin Jenkins. Gweithiwr achos, Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Am wasanaethau cyhoeddus a chymunedol yn Abertawe. (Abertawe)

ii) Brian Thomas Sullivan. Adwaenir fel Brian Quinlan ar y llwyfan. Am wasanaethau elusennol a'r Celfyddydau Perfformio. (Abertawe).

**4) Cywiriadau/Diwygiadau i Wŷs y Cyngor**

a) **Cofnod 27 "Cwestiynau'r Cynghorwyr" - Cwestiwn 7**
Ychwanegu'r Cynghorydd I E Mann at restr o enwau'r rhai sy'n cyflwyno'r cwestiwn.

b) **Cofnod 29 "Rhybudd o Gynnig - Home Farm"**
Ychwanegu'r Cynghorydd I E Mann a P N May at restr o enwau'r rhai sy'n cyflwyno'r cwestiwn.

## 22. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

### 1) Diwygiadau i bortffolios y Cabinet

Adroddodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor fod y diwygiadau canlynol wedi'u gwneud i bortffolios y Cabinet:

**Trawsnewid Busnes a Pherfformiad**
**Ychwanegu**
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
**Dileu**
Gwasanaethau masnachol

**Cymunedau Gwell (Pobl - Arweiniol)**
**Ychwanegu**
Dysgu Gydol Oes
Abertawe - Dinas Hawliau Dynol
**Dileu**
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**Cyflwyno**
**Ychwanegu**
Gwasanaethau masnachol
Cyd-bwyllgor Ymgynghorol (Arweiniol)
Deisebau

**Yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd**
**Ychwanegu**
Llwybrau beicio
Adnewyddu a Chynnal a Chadw Cerbydlu
Parciau a Glanhau
Cludiant Cyhoeddus

**Cartrefi ac Ynni**
**Ychwanegu**
Trafnidiaeth Cerbydlu Gwyrdd a Mabwysiadu Cerbydau Gwyrdd

Nododd hefyd y byddai pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn e-bostio'r rhestr o bortffolios y Cabinet sydd wedi'u diweddaru at yr holl gynghorwyr a byddai'n diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor.

**2) Croesawu Phil Roberts yn ôl (Prif Weithredwr)**

Croesawodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor Phil Roberts (Prif Weithredwr) yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch. Diolchodd hefyd i Jack Straw am weithredu fel y Prif Weithredwr dros dro yn ystod y cyfnod hwnnw.

**3) Y diweddaraf am ad-drefnu llywodraeth leol**

Darparodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor y diweddaraf am Ad-drefnu Llywodraeth Leol. Nododd y bydd Grŵp pellach yn cael ei sefydlu i edrych ar y mater a bydd yr adborth yn barod ym mis Hydref 2019.

**4) Pwerdy Great Western - Cydweithio**

Nododd Dirprwy Arweinydd y Cyngor y byddai Arweinydd y Cyngor yn bresennol mewn cyfarfod yn Llundain ym mis Gorffennaf mewn perthynas â'r posibilrwydd o greu pwerdy Great Western.

**5) Cyfle datblygu posib ar hyd y blaendraeth**

Nododd Dirprwy Arweinydd y Cyngor, yn dilyn Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol mewn perthynas â chyfleoedd datblygu posib ar hyd y blaendraeth, fod Arweinydd y Cyngor wedi penderfynu i beidio â pharhau ag unrhyw ddatblygiad yn ardal y West Cross Inn.

**6) Abertawe 50**

Cyfeiriodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor at nifer o ddigwyddiadau presennol a'r dyfodol sy'n gysylltiedig ag Abertawe'n dathlu hanner canmlwyddiant fel dinas. Derbyniodd Abertawe statws dinas ar 3 Gorffennaf 1969.

Cyfeiriodd at y Parti Stryd a gynhelir ar hyn o bryd ger cymuned Sandfields ar Heol San Helen; ymweliad Tywysog Cymru a Duges Cernyw ym Mhafiliwn Patti, Parc Victoria a Chapel y Tabernacl, Treforys ar 3 Gorffennaf 2019 a Sioe Awyr Cymru - Bae Abertawe a gynhelir ar 6 a 7 Gorffennaf 2019.

## 23. Cwestiynau gan y Cyhoedd.

Gofynnwyd nifer o gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â Chofnod rhif 28 "Rhybudd o Gynnig - Argyfwng Hinsawdd". Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

## 24. Cyflwyniad Cyhoeddus - Dim.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 25. Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Catherine Zeta Jones

Cyflwynodd Arweinydd y Cyngor adroddiad a oedd yn ystyried rhoi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Catherine Zeta-Jones.

Ganed Catherine Zeta-Jones CBE yn Abertawe ac mae'n actores arobryn y mae ei doniau'n amrywio o fyd y theatr i fyd y ffilmiau. Dechreuodd ei gyrfa ar y llwyfan yn Llundain cyn dod yn seren deledu yn yr addasiad poblogaidd o lyfr HE Bates, ’The Darling Buds of May”. Enillodd Wobr yr Academi am ei phortread o Velma Kelly yn yr addasiad sgrîn o un o sioeau cerdd Broadway, Chicago”.

Enwebwyd hefyd am wobr Golden Globe ac enillodd wobr Dewis y Beirniaid, Gwobr Urdd yr Actorion Sgrîn a gwobr BAFTA ar gyfer Actores Ategol Gorau am ei pherfformiad. Mae Catherine hefyd wedi chwarae rhannau yn ffilmiau Ocean's 12, The Mask of Zorro, Entraptment a The Terminal.

Yn ystod ei gyrfa mae Catherine wedi bod yn llysgennad dros Abertawe ac mae hi wedi gweithio gyda nifer o elusennau.

**Penderfynwyd:**

1) Rhoi Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Catherine Zeta-Jones;

2) Cynnal Cyfarfod Seremonïol y Cyngor ar 24 Gorffennaf 2019 i gyflwyno'r teitl Rhyddid er Anrhydedd.

**26. Aelodaeth Pwyllgorau.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y cyngor ar gyfer yr enwebiadau/diwygiadau i aelodaeth cyrff y cyngor. Ychwanegodd hefyd rai diwygiadau i'r adroddiad.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i aelod hyrwyddo'r awdurdod:

**1) Hyrwyddwr Aelod o'r Lluoedd Arfog**
Tynnu enw'r Cynghorydd J E Burtonshaw.
Ychwanegu'r Cynghorydd W G Lewis.

**2) Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**
Tynnu enw'r Cynghorydd W Evans.
Ychwanegu lle Llafur gwag.

**Penderfynwyd** y dylid diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Archwilio**
Tynnu enw'r Cynghorydd W G Thomas.
Ychwanegu'r Cynghorydd D W Helliwell.

**2) Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi**
Tynnu enw'r Cynghorydd G J Tanner.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd K M Roberts.

**3) Pwyllgor y Rhaglen Graffu**

Tynnu enw'r Cynghorydd J E Burtonshaw.
Ychwanegu'r Cynghorydd J A Hale.

**4) Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**
Tynnu enw'r Cynghorydd W Evans.
Ychwanegu enw'r Cynghorydd S Pritchard.

**5) Panel Llofnodwyr Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog**
Tynnu enw'r Cynghorydd J E Burtonshaw.
Ychwanegu'r Cynghorydd W G Lewis.

## 27. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.

### 1) ‘Cwestiynau Atodol’ Rhan A

Cyflwynwyd chwe (6) 'Chwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiwn/cwestiynau atodol hwnnw/hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arno/arnynt isod:

**Cwestiwn 4** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y canlynol:
*"A fydd aelod o'r Cabinet yn gallu sicrhau y byddai llinell amlwg yn y gyllideb sy'n dangos y swm ar gyfer cynnal a chadw'n glir?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd y byddai'n trafod y mater gyda'r Swyddog Adran 151 ac yn darparu ymateb ysgrifenedig.

### 2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B

Cyflwynwyd dau (2) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol ar eu cyfer' Rhan B ar eu cyfer.

## 28. Hysbysiad o Gynnig - Argyfwng Hinsawdd.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd P K Jones a'i eilio gan y Cynghorydd M Sherwood.

Mae'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:

*"Mae'r cyngor hwn yn nodi casgliad adroddiad dros dro diweddar gan wyddonwyr y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) fod angen gwneud pob ymdrech i atal tymheredd cyfartalog y byd rhag codi 1.5°C yn uwch na lefelau cynddiwydiannol. Fodd bynnag, gellir cyrraedd cynnydd o'r fath, gyda pholisïau llywodraethu presennol, mor gynnar â 2030, gyda chynnydd pellach yn y degawdau sy'n dilyn. Mae'r fath raddau o dymheredd yn bygwth bodau dynol a phob bod byw ar y blaned, gydag aflonyddwch i amaethyddiaeth, a cholli cynefinoedd daearol a bywyd gwyllt morol. Rydym eisoes wedi cydnabod, ar draws y byd, fod mwy o rywogaethau planhigion ac anifeiliaid yn dod i ben nag erioed o'r blaen; mae riffiau cwrel, sy'n hanfodol i fywyd môr, yn marw, mae cenedlaethau ynysoedd bach a*

*dinasoedd arfordirol yn cael eu bygwth gan gynnydd yn lefel y môr wrth i'r capiau iâ pegynol ddadmer; mae cynnydd yn nifer y bobl sy'n marw o ganlyniad i achosion o dywydd gwael - megis gormod o gyfnodau oer, gormod o gyfnodau poeth, corwyntoedd, llifogydd.*

*Rydym wedi nodi gweithredaeth pobl ifanc ar draws y byd sy'n mynegi eu teimladau ynghylch diffyg pŵer o ran y sefyllfa ac yn gofyn i'r rheiny sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau heddiw i gymryd camau brys i ddiogelu eu dyfodol.*

*Rydym yn cydnabod, ar lefel fyd-eang, mai cyfrifoldeb y llywodraethau cenedlaethol yw mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac mae angen iddynt gydweithio'n rhyngwladol er mwyn gwneud hynny, ond mae gwaith pwysig o hyd y gall cynghorau lleol ei wneud.*

*Rydym yn cydnabod hanes diweddar y cyngor hwn wrth geisio gwneud ei orau i leihau allyriadau carbon, gwella bioamrywiaeth, a cheisio sicrhau economi ffyniannus, carbon isel ar gyfer ein rhanbarth. Rydym yn falch iawn o'r camau gweithredu a gymerwyd gan Gyngor Abertawe hyd yn hyn, sy'n cynnwys y canlynol:*

- *Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yw un o'r Cronfeydd Pensiwn cyntaf yn y DU i fabwysiadu Polisi Llywodraethu Amgylcheddol, Cymdeithasol sy'n ymrwymo'r gronfa bensiwn i leihau ei gyswllt (sydd eisoes yn isel) â buddsoddiadau tanwydd ffosil sy'n seiliedig ar garbon o hyd at 50% dros y pedair blynedd nesaf. Wrth wneud hynny, mae'n derbyn bod buddsoddi mewn buddsoddiadau ynni gwyrdd, isadeiledd a chymdeithasol newydd yn cynnig yr enillion ariannol cynaliadwy gorau ar gyfer aelodau'r Gronfa Bensiwn yn y tymor hir. Rhoddir y diweddaraf am y cynnydd ar sail flynyddol.*
- *Newid 21,053 o oleuadau stryd yn rhai LED, lleihau CO2 bob blwyddyn o 2,198,608.49kg.*
- *Cyflwyno Sioe Deithiol Aer Glân bob blwyddyn i ysgogi'r cyhoedd i brynu cerbydau trydan ac i hyrwyddo gwella ansawdd aer.*
- *Cyflwyno mesurau inswleiddio ac effeithlonrwydd ynni er budd tenantiaid tai'r cyngor.*
- *Hyrwyddo ymgyrchoedd a rhaglenni Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynyddu effeithlonrwydd ynni tenantiaid preifat a pherchnogion tai, lleihau tlodi tanwydd a lleihau allyriadau.*
- *Ymgyrchu dros drydaneiddio'r rheilffordd o Abertawe i Lundain.*
- *Cynyddu'r gwaith tuag at gael Morlyn Llanw blaenllaw, cefnogi cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol megis SCEES, i gyflwyno ynni glân ac er budd ysgolion lleol ac adeiladau cymunedol.*
- *Gweithio gydag eraill yn genedlaethol i annog Llywodraeth Cymru i ddatblygu isadeiledd gwefru ceir trydanol.*
- *Bod yn arweinwyr arfer da yng Nghymru drwy gael polisïau ac ymagweddau Datblygu Cynaliadwy o'r cyfnod cyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.*

- *Cynnwys gofalu am yr amgylchedd naturiol yn ein Cynllun Corfforaethol yn ddiweddar fel blaenoriaeth, cydnabod y cyfraniad hynod bwysig a gwaith ein Tîm Cadwraeth Natur.*
- *Adeiladu ein tai cyngor cyntaf ers cenhedlaeth yma yn Abertawe at safon Passivhaus, a dechrau adeiladu tai cyngor newydd at safon hynod ynni effeithlon, sef "Safon Abertawe," a fydd yn galluogi i'r holl elfennau gael eu sicrhau'n lleol a lleihau allyriadau gan ddefnyddio storio ynni mewn batris a defnyddio pympiau o'r ddaear.*
- *Bod yn arloesol wrth adeiladu prosiectau blaenllaw megis Ysgol Pentrehafod, arddangos lleihau gwastraff a chynaladwyedd.*
- *Ennill buddsoddiad ar gyfer technoleg werdd arloesol, megis "Cart" fel rhan o Fargen Ddinesig y Dinas-ranbarth.*
- *Parhau i geisio cyfleoedd i ychwanegu at ein cerbydlu o gerbydau trydan, sef yr un fwyaf yng Nghymru eisoes.*
- *Parhau i gyflwyno ein strategaeth Lleihau Carbon: Lleihad o 42% mewn allyriadau ers ein blwyddyn gwaelodlin.*
- *Sicrhau cyllideb ar gyfer cynnydd syfrdanol mewn llwybrau Teithio Llesol (cerdded a beicio) drwy'r sir ac wedi cefnogi cynllun beicio cymunedol Prifysgol Abertawe.*
- *Wedi dod yn Awdurdod Lleol Gwrth-ffracio yn 2016, wedi iddo basio deddf i "wrthwynebu unrhyw ddatblygiad nwy anghonfensiynol (ffracio)" sydd hefyd wedi ein hymrwymo i weithio tuag at fod yn awdurdod lleol nad ydym yn defnyddio tanwydd ffosil erbyn 2025.*
- *Gweithredu gweithio ystwyth fel y gall ein gweithlu leihau orfod teithio'n ddiangen.*
- *Datblygu arferion caffael lleol i leihau ein hôl troed carbon.*
- *O ran addysg, rydym wedi ymuno â rhaglenni EcoYsgolion rhyngwladol yn ddiweddar sy'n annog ysgolion i hyrwyddo ailgylchu a lleihau defnydd o ynni a dŵr.*
- *Annog ein disgyblion Cyfnod Sylfaen i ddysgu yn yr awyr agored gan sicrhau parch at natur, bioamrywiaeth ac ecosystemau.*
- *Yng Nghyfnod Allweddol 4, datblygu partneriaethau gyda'n prifysgolion i sefydlu gweithdai STEM gan gynnwys effaith newid yn yr hinsawdd.*

*Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio'n agos gydag ymchwilwyr er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a'r ddealltwriaeth gliriaf am yr hyn y gallwn ni ei wneud i ymateb i'r angen brys i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.*

*Felly, mae'r cyngor hwn yn datgan argyfwng hinsawdd, ac mae'n galw ar lywodraeth y DU i wneud yr un peth. Rydym yn ymrwymo i'r canlynol:*

1. *Galw ar lywodraethau'r DU a Chymru i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i ni er mwyn sicrhau bod Abertawe'n dod yn garbon niwtral erbyn 2030.*

2. *Hyrwyddo'r argyfwng hinsawdd a hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gwir am newid yn yr hinsawdd i'r cyhoedd lleol.*

3. *Gweithio gydag arbenigwyr ymchwilio a datblygu perthnasol i:*

   a. *Adolygu ein strategaethau a'n cynlluniau gweithredu presennol er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.*
   b. *Nodi newidiadau pellach i'r polisi neu'r camau gweithredu y gallem eu cymryd, o fewn cwmpas ein pwerau a'n hadnoddau, i ateb ger yr argyfwng hinsawdd.*
   c. *Ceisio help partneriaid lleol megis Prifysgol Abertawe a chyrff ymchwilio eraill i lunio adroddiad o fewn blwyddyn i'w rannu â'r gymuned, a fydd yn esbonio'r gwaith sydd ar waith ar hyn o bryd a'r cyflawniadau a gafwyd hyd yn hyn, yn ogystal â'r targedau ar gyfer y dyfodol.*

4. *Cael y diweddaraf am waith pellach y cyngor yn y maes hwn yn flynyddol drwy adran amcan corfforaethol Adroddiad o Adolygiad Blynyddol y cyngor - Cynnal a gwella adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

**Sylwer:** Gofynnodd i'r Cynghorydd W G Thomas:

*"Hoffwn nodi gwaith gwych y cyngor mewn perthynas ag adeiladu tai ynni effeithlon a'r effaith ar leihau carbon. Beth yw'r hyn a allwn ni ei wneud i wella'r agweddau hynny yn eiddo a swyddfeydd y cyngor?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Gartrefi ac Ynni y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

## 29. Hysbysiad o Gynnig - Fferm Gartref.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A M Day a'i eilio gan y Cynghorydd C L Philpott.

Mae'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:

*"Nodwn fod y Cabinet wedi cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiadau o Wybodaeth Flaenorol mewn perthynas â nifer o safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt. Nodwn yr awgrym mai Home Farm, sydd ym Mharc Singleton, yw un o'r safleoedd a restrir ar wefannau GwerthwchiGymru.*

*Nodwn hefyd fod y disgrifiad yn nodi bod y cyngor yn ceisio partneriaid i "fwyafu gwerth y safle a sicrhau enillion datblygwyr o gynigion preswyl, masnachol a defnydd cymysg a arweinir gan y farchnad.' Mae'r Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol hwnnw hefyd yn nodi:*

*Home Farm, Parc Singleton - cynllun 42 uned ar hyn o bryd a fydd, o bosib, yn cynnwys 20% o dai fforddiadwy a gefnogir gan yr ymateb cyn cyflwyno cais.*

*Nodwn anawsterau ariannol y cyngor ond ni ddylai Home Farm, sydd wedi'i leoli o fewn parc arddangos Abertawe, gael ei ecsbloetio er mwyn gwneud elw.*

*Nodwn fod pryder sylweddol ymhlith y cyhoedd o ran y cynnig, yn enwedig llechfeddiant datblygiadau preswyl ym mharc mwyaf y ddinas, colli mynediad posib at rai o adeiladau mwyaf hanesyddol y ddinas, cynnydd mewn traffig o ddatblygiad o'r fath a diffyg gwahaniad rhwng cerddwyr a thraffig cerbydau a phroblemau wrth gael mynediad i'r safle ar Lôn Sgeti ac oddi yno.*

*O ystyried hyn a sefydlu Grŵp Cyfeillion Parc Singleton yn ddiweddar, rydym yn galw ar y Cabinet i gynnal y trafodaethau ehangaf posib ynghylch defnyddiau addas a phriodol eraill ar gyfer Home Farm sy'n cyd-fynd â'i leoliad."*

Cynigodd y Cynghorydd C E Lloyd gynnig diwygiedig a eiliwyd gan y Cynghorydd M Thomas.  O ran pleidleisio, derbyniwyd y cynnig diwygiedig a daeth yn gynnig annibynnol.

Mae'r cynnig diwygiedig yn darllen fel a ganlyn:

*"Nodwn fod y Cabinet wedi cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiadau o Wybodaeth Flaenorol mewn perthynas â nifer o safleoedd y mae'r cyngor yn berchen arnynt. Nodwn yr awgrym mai Home Farm yw un o'r safleoedd a restrir ar wefannau GwerthwchiGymru.*

*Nodwn hefyd fod y disgrifiad yn nodi bod y cyngor yn ceisio partneriaid i "fwyafu gwerth y safle a sicrhau enillion datblygwyr o gynigion preswyl, masnachol a defnydd cymysg a arweinir gan y farchnad..." ac mae'r Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol hefyd yn nodi:*

*Home Farm, Parc Singleton - cynllun 42 uned ar hyn o bryd a fydd, o bosib, yn cynnwys 20% o dai fforddiadwy a gefnogir gan yr ymateb cyn cyflwyno cais.*

*Mae'r cyngor yn nodi adborth cychwynnol gan breswylwyr yn dilyn cyhoeddi'r Hysbysiad o Wybodaeth Flaenorol a sefydlu Grŵp Cyfeillion Parc Singleton yn ddiweddar. Mae felly yn galw ar y Cabinet i gynnal y trafodaethau ehangaf posib ynghylch defnyddiau addas a phriodol eraill ar gyfer safle Home Farm, sy'n cyd-fynd â'i leoliad.*

*Gofynnwn i'r Arweinydd sefydlu gweithgor trawsbleidiol i ystyried opsiynau dichonadwy ar gyfer addasu Home Farm a dylid adrodd i'r Cabinet o fewn y chwe mis nesaf."*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig a amlinellir uchod.

## 30. Hysbysiad o Gynnig - Oedran Pensiwn Statudol.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd L S Gibbard ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd C E Lloyd.

Mae'r cynnig yn darllen fel a ganlyn:

*"Mae'r cyngor yn nodi'r cynnig blaenorol a basiwyd ym mis Rhagfyr 2016 a oedd yn galw ar y llywodraeth i wneud trefniadau trosiannol teg o ran pensiwn y wladwriaeth i fenywod o'r 1950au sydd, yn annheg, wedi gorfod ysgwyddo baich y cynnydd yn oedran pensiwn statudol y wladwriaeth heb unrhyw rybudd o gwbl ac maent yn credu ei fod yn annerbyniol nad yw'r llywodraeth wedi gweithredu ar ran y 15,000 o fenywod o Abertawe yr effeithir arnynt oherwydd ei weithrediadau.*

*Nodwn hefyd adolygiad barnwrol y gwrandawiad yn yr Uchel Lys a gynhaliwyd ar 5 a 6 Mehefin 2019 ac rydym yn aros yn amyneddgar i glywed canlyniad yr achos.*

*Mae'r cyngor hwn yn gofyn bod yr Arweinydd yn ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gwaith a Phensiynau i amlinellu cefnogaeth barhaus Cyngor Abertawe i'r menywod sy'n brwydro yn erbyn anghydraddoldeb o ran pensiwn y wladwriaeth.*

**Penderfynwyd** mabwysiadu'r Hysbysiad o Gynnig a amlinellir uchod.

Daeth y cyfarfod I ben am 8.15 pm

**Cadeirydd**